OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1806

# Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

## RHAN 6

SYMUD GWASTRAFF PERYGLUS

*Y dogfennau sydd i'w cwblhau ar gyfer llwythi*

**Atodlen y cludwyr**

**37.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob achos (p'un ai o dan reoliad 36, neu reoliad 40) os oes mwy nag un cludwr yn cludo'r llwyth, neu i gludo'r llwyth.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i'r traddodwr—

(i) paratoi copi o atodlen y cludwyr i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus (os yw'n wahanol i'r traddodwr), y traddodwr, pob cludwr a'r traddodai; a

(ii) rhoi pob copi i'r cludwr cyntaf;

(b) rhaid i'r cludwr cyntaf sicrhau bod pob copi y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth;

(c) wrth draddodi llwyth i bob cludwr dilynol—

(i) rhaid i'r cludwr blaenorol roi i'r cludwr dilynol bob copi o'r atodlen y mae wedi'i gael;

(ii) rhaid i'r cludwr dilynol gwblhau'r dystysgrif berthnasol ar bob copi, rhoi un i'r cludwr blaenorol a rhaid iddo gadw'r copi, a sicrhau bod pob copi sy'n weddill ac y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth; a

(iii) pan draddodir llwyth i draddodai, rhaid i'r cludwr gadw un copi o atodlen y cludwyr a rhoi pob copi sy'n weddill i'r traddodai.

(3) Pan fo—

(a) trefniadau ar gyfer cludo'r llwyth heb eu gwneud gyda'r holl gludwyr y bwriedir iddynt fod yn ymwneud ag ef cyn cychwyn cludo; neu

(b) bod newid mewn unrhyw drefniadau o'r fath am unrhyw reswm ar ôl i'r cludo ddechrau,

mae paragraff (2) yn gymwys fel pe bai'r cludwr mewn meddiant o'r llwyth pan wneir trefniadau pellach, yn achos paragraff (a), neu'n effeithiol, yn achos paragraff (b), yn draddodwr a phe bai'r cludwr nesaf yn gludwr cyntaf.

(4) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, heblaw mewn achos o lwyth o wastraff peryglus a wrthodwyd, mae rheoliad 36 yn effeithiol fel pe bai—

(a) cyfeiriad at wastraff peryglus yn cael ei symud yn cynnwys cyfeiriad at ei feddiant yn cael ei drosglwyddo i'r cludwr nesaf;

(b) ym mharagraff (2)(a)(i), y cyfeiriad at "y cludwr" yn gyfeiriad at "bob cludwr";

(c) ym mharagraff (2)(a)(iii), 2(b) a (2)(c)(iv), y cyfeiriad at “y cludwr” yn gyfeiriad at “y cludwr cyntaf”;

(ch) ym mharagraff (3)(b) mewn perthynas â chludwr nad yw'n gludwr olaf, y cyfeiriad at “y traddodai” yn gyfeiriad at “y cludwr dilynol”;

(d) ym mharagraff (4)(b), y cyfeiriad at “y cludwr” yn gyfeiriad at “y cludwr olaf”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 37 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/07/2005.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.